# Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i reoli agweddau ar eu bywydau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn amlinellu'r gofynion ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc i'w cefnogi i wneud penderfyniadau a rheoli amrywiol agweddau ar eu bywydau. Mae'n cynnwys datblygu annibyniaeth mewn perthynas â dillad, edrychiad, gofod personol gartref, arian a gweithgareddau. Ar ben hynny, mae'n golygu eu helpu i nodi a meithrin eu cryfderau, eu diddordebau a'u galluoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am blant neu bobl ifanc
2. cefnogi plant neu bobl ifanc ac eraill i nodi eu cryfderau, eu diddordebau a'u galluoedd
3. cefnogi plant neu bobl ifanc ac eraill i nodi dewisiadau, anghenion a chanlyniadau mewn perthynas â'u gofal a chymorth
4. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc ac eraill i nodi'r risgiau posibl a manteision cymryd risgiau cadarnhaol
5. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc i wneud penderfyniadau am eu dillad a'u hymddangosiad, ac i reoli hynny
6. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc i wneud penderfyniadau am eu harian, ac i reoli hynny
7. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc i wneud penderfyniadau am eu gofod personol gartref, ac i reoli hynny
8. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc i wneud penderfyniadau am eu gweithgareddau cymdeithasol, ac i reoli hynny
9. cefnogi plant neu bobl ifanc i gael gafael ar ddyfeisiau ac adnoddau digidol ac i reoli eu presenoldeb ar-lein
10. cefnogi plant neu bobl ifanc i feithrin eu hunaniaeth a'u hunan-barch
11. annog plant neu bobl ifanc i ddatblygu perthynas ag eraill
12. cefnogi plant neu bobl ifanc i adnabod sut mae eu diddordebau, eu cryfderau a'u galluoedd yn gallu gwella eu llesiant a'u canlyniadau
13. cefnogi plant neu bobl ifanc i reoli risgiau, heriau a chyfyngiadau mewn perthynas â diogelu
14. cefnogi plant neu bobl ifanc i nodi strategaethau ar gyfer rheoleiddio emosiynol
15. cefnogi plant neu bobl ifanc i ddatblygu gwydnwch a dysgu o heriau
16. dathlu dyfalbarhad, ymdrechion neu lwyddiant plant neu bobl ifanc, ac annog eraill i wneud hynny
17. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gweithio gyda phlant neu bobl ifanc i reoli agweddau ar eu bywydau
18. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth weithio â phlant neu bobl ifanc i reoli agweddau ar eu bywydau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich rôl o ran hybu hawliau, dewisiadau, llesiant a chyfranogiad plant a phobl ifanc
2. y sgiliau cyfathrebu a gwrando sydd eu hangen i ymwneud â phlant a phobl ifanc, ac i ryngweithio'n effeithiol â nhw
3. sut mae cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu dulliau rheoleiddio emosiynol
4. sut mae pŵer a dylanwad yn gallu cael eu defnyddio a'u camddefnyddio wrth gefnogi plant a phobl ifanc i reoli agweddau ar eu bywydau
5. sut a ble i gael gafael ar wybodaeth a chymorth a all lywio eich ymarfer wrth gefnogi plant a phobl ifanc i reoli eu bywydau
6. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar sut mae plant a phobl ifanc yn rheoli agweddau ar eu bywydau
7. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar sut mae plant a phobl ifanc yn rheoli agweddau ar eu bywydau
8. sut mae gwneud trefniadau ymarferol a sicrhau adnoddau i gefnogi plant a phobl ifanc, gan ystyried cynaliadwyedd
9. sut mae nodi a rheoli risgiau a chefnogi cymryd risgiau cadarnhaol
10. sut mae cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol ac i reoli eu presenoldeb ar-lein yn ddiogel
11. pwysigrwydd perthnasoedd a rhwydweithiau cymorth cyson ar gyfer plant a phobl ifanc
12. pam ei fod yn bwysig cydnabod dyfalbarhad, ymdrech a llwyddiant er llesiant plant a phobl ifanc
13. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi plant a phobl ifanc i reoli eu bywydau
14. ffyrdd o ddarparu gwybodaeth a chyngor a fydd yn galluogi plant a phobl ifanc i reoli eu dillad, eu hedrychiad, eu harian, eu cartref a'u gweithgareddau
15. pwysigrwydd, buddion a dulliau o ddatblygu hyder plant a phobl ifanc
16. ffyrdd o annog plant a phobl ifanc i ddilyn eu diddordebau a gwella eu cryfderau a'u galluoedd
17. rôl chwarae, adloniant a hamdden mewn perthynas ag iechyd a llesiant plant a phobl ifanc
18. sut mae ymateb yn hyblyg i'r gwahanol lefelau o gymorth ac atebolrwydd sydd eu hangen ar gyfer plant a phobl ifanc

19. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi plant a phobl ifanc i reoli agweddau ar eu bywydau
20. sut mae cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial
21. sut mae hybu dewis a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc
22. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi plant a phobl ifanc i reoli agweddau ar eu bywydau
23. sut mae ymateb i faterion neu bryderon wrth gefnogi plant a phobl ifanc i reoli agweddau ar eu bywydau
24. theorïau sy'n berthnasol i weithio gyda phlant a phobl ifanc i reoli agweddau ar eu bywydau
25. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc i reoli agweddau ar eu bywydau
26. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc i reoli agweddau ar eu bywydau
27. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc i reoli agweddau ar eu bywydau, a sut i fynd i’r afael â hyn
28. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc i reoli agweddau ar eu bywydau

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD366

Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i reoli agweddau ar eu bywydau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD366 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Rheoli agweddau ar eu bywydau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |